Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# ASESIAD DIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE 2025

## ***Beth yw gweledigaeth y cyngor ar gyfer chwarae?***

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful eisiau i bob plentyn fwynhau chwarae fel rhan naturiol a phwysig o dyfu i fyny. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y dylai fod gan bob plentyn, pwy bynnag ydyn nhw a ble bynnag maen nhw'n byw, leoedd diogel, difyr a chynhwysol i chwarae. Eu gweledigaeth yw gwneud chwarae'n rhan normal o fywyd pob dydd – gartref, mewn ysgolion, ac yn y gymuned.

## ***Pam mae chwarae'n bwysig?***



***Mae chwarae'n hanfodol i bob plentyn.***
***Mae'n helpu gyda'r canlynol:***

- Iechyd corfforol
- Llesiant emosiynol
- Sgiliau cymdeithasol
- Teimlad o gael eu cynnwys a bod â chysylltiadau yn y gymuned

Mae Merthyr Tudful yn cydnabod bod ***chwarae yn hawl***, a bod darparu lleoedd diogel, difyr i blant yn rhan o'n dyletswydd.

## ***Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma?***

- Cynyddu ***ymwybyddiaeth*** o bwysigrwydd chwarae
- ***Hyrwyddo chwarae*** mewn ysgolion a chymunedau
- Dechrau ***adnewyddu parciau*** i wella'u cyflwr





## ***Canfyddiadau Allweddol ynghylch chwarae***


- Roedd y rhan fwyaf o'r ***162 o blant*** yn yr arolwg yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae yn yr awyr agored o amgylch Merthyr Tudful.
- Dywedodd rhai rhieni fod plant yn cael trafferth cyrraedd mannau i chwarae heb oruchwyliaeth yn ddiogel oherwydd ***ffyrdd prysur*** neu oherwydd nad oes modd cyrraedd rhai mannau heb gar.
- Cyfeiriodd llawer o rieni at y mannau chwarae oedd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar a mynegi brwdfrydedd ynghylch ***cyfarpar wedi'i uwchraddio.***




## ***Sut mae plant yn hoffi chwarae?***













## ***Beth mae teuluoedd wedi'i ddweud wrthyn ni am chwarae?***



Allan o 469 o rieni yn yr arolwg, y ceisiadau mwyaf poblogaidd oedd:

- Parciau chwarae gwell a **chyfarpar cynhwysol** (i blant ag ADY a/neu anableddau).
- ***Mwy o chwarae gyda goruchwyliaeth, clybiau ieuenctid,*** a ***mannau chwaraeon awyr agored*** fel parciau sglefrio, trampolinau, a phadiau sblasio.
- Mannau chwarae i ***ferched yn eu harddegau***, gan gynnwys hybiau cymunedol a mannau diogel i dreulio amser.
- ***Chwarae seiliedig ar fyd natur*** fel ysgolion coedwig a gwylltgrefft
- ***Digwyddiadau annigidol*** a chlybiau ar ôl ysgol.

***Bydd gwneud chwarae'n ddiogel i blant, ac yn ddibryder i rieni, yn creu mwy o gyfleoedd i chwarae'n annibynnol yn yr awyr agored.***

Prif bryderon:


- Ymddygiad gwrthgymdeithasol a ***phoeni am ddiogelwch.***
- Diffyg gwaith cynnal a chadw mewn parciau a ***fandaliaeth.***
- ***Costau*** mynychu neu deithio i weithgareddau.
- ***Diffyg cyfarpar hygyrch*** a lle i blant ag anableddau.
- Prinder mannau chwarae o fewn ***pellter cerdded***, yn enwedig yn ***wardiau isaf y cymoedd.***
- Dim digon o leoedd i ***blant hŷn***, felly maen nhw'n defnyddio mannau'r plant iau.



# Beth ddatgelodd yr Ŵyl Chwarae am chwarae?

### *Dywedodd gweithwyr chwarae:*

- Fod y plant wrth eu bodd gyda phêl droed, cestyll neidio, tennis bwrdd, a swingball.
- Fod chwarae o dan do sydd â digon o staff bob amser yn cael croeso.
- Fod cost chwarae yn bwysig i deuluoedd.
- Fod recriwtio gweithwyr chwarae yn her barhaus.



### *Dywedodd rhieni:*

- Fod cyfleoedd chwarae yn dod â'r gymuned ynghyd.
- Fod angen mwy o hyrwyddo.
- Fod y parciau newydd yn teimlo'n ddiogel ac yn hygyrch.
- Y dylai digwyddiadau'r Ŵyl Chwarae gael eu cynnal yn amlach.



Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER CHWARAE

### *Merthyr Tudful hygyrch*

Byddwn ni'n:

- Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwarae ***di-dâl a chost isel***
- Cefnogi clybiau ar ôl ysgol a gwyliau i ***estyn*** eu darpariaeth
- Cefnogi chwarae sy'n cael ei drefnu gan y gymuned mewn ***ardaloedd gwledig***



### *Merthyr Tudful sy'n gynhwysol*

Byddwn ni'n:

- Parhau i wella ***diogelwch*** parciau a mannau agored
- Parhau i sicrhau bod plant a phobl ifanc o ***bob cefndir*** yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn chwarae
- Cynnig mwy o weithgareddau i ***ferched yn eu harddegau***



### *Merthyr Tudful sy'n ddiogel*

- Mae gan yr Awdurdod lleol gynlluniau i leihau effeithiau negyddol ffyrdd a chyffyrdd trwy gyflwyno ***mesurau arafu traffig*** a ***mannau croesi diogel*** i gerddwyr a beicwyr
- Bydd ***Grantiau Diogelwch Ffyrdd*** a chyllid arall yn parhau i gael eu defnyddio i gefnogi cyflwyno hyfforddiant beicio i blant er mwyn bodloni Safonau Cenedlaethol



### *Merthyr Tudful sy'n gefnogol*

- Byddwn ni'n darparu gwybodaeth ynghylch mynediad i gyfleoedd chwarae a chefnogaeth
- Cynnig a hyrwyddo ***hyfforddiant*** i wirfoddolwyr, rhieni a gweithwyr chwarae ***ddatblygu*** eu gwybodaeth am waith chwarae
- Rhoddir cefnogaeth i bartneriaid gyflwyno hyfforddiant priodol i ***grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr***
- Cynigir ystod gynhwysfawr o ***gyfleoedd*** DPP i bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant



# CYNLLUN GWEITHREDU CHWARAE

### ***Cynyddu Cyfleoedd i Chwarae***

- Parhau â'r ffocws ar opsiynau chwarae ***cynhwysol, di-dâl a chost isel.***
- Parhau i roi blaenoriaeth i gyfleoedd chwarae mewn ***ardaloedd lle nad oes darpariaeth ddigonol.***
- ***Hysbysebu hyfforddiant*** a chefnogaeth i weithwyr chwarae yn well.
- Syniadau newydd fel ymgyrchoedd ar y cyfryngau i hybu ***negeseuon cadarnhaol ynghylch chwarae.***
- Blaenoriaethu dulliau ***cyd-ddylunio cymunedol*** i ddatblygu mannau sy'n wir yn adlewyrchu lleisiau ac ***anghenion plant lleol.***

## ***Beth mae hyn yn ei olygu?***

- Mae chwarae'n cael ei weld fel ***blaenoriaeth*** ym Merthyr Tudful
- Nid yw pob plentyn yn cael mynediad cyfartal at chwarae eto, ond ***mae camau ar waith***
- Mae mannau chwarae mwy ***hygyrch, cynhwysol*** a ***diogel*** ar eu ffordd
- Mae'r cyngor yn ***gwrando*** ar blant a theuluoedd trwy ymgyngoriadau
- Bydd gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n well, ac yn gallu cyrraedd mwy o deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd â'r ***angen mwyaf.***
- Cynnydd yn y ***gwaith sy'n digwydd ar draws adrannau***, gan wreiddio chwarae ym mholisïau iechyd, addysg, tai, a chynllunio cymunedol.



I ddarllen adroddiad llawn yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cliciwch ***yma.***

PAG